Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Nodyn cyngor i Weinidogion Cymru ar gynyddu gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg

Gorffennaf 2026

1 **Crynodeb gweithredol:** Nodyn cyngor i Weinidogion Cymru ar gynyddu capasiti'r gwasanaethau iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg

1.1 Pwrpas: Mae'r nodyn cyngor hwn yn darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar y camau sydd angen eu cymryd er mwyn cynyddu capasiti'r gwasanaeth iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.2 Yr her strategol: Er gwaethaf cyflwyno safonau'r Gymraeg a strategaeth Mwy na Geiriau (MNG), mae darpariaeth glinigol cyfrwng Cymraeg yn parhau'n anghyson ac annigonol. Mae cynnydd hyd yma wedi bod yn raddol ac yn ddarniog, ac nid oes sicrwydd o bell ffordd y gall siaradwyr Cymraeg dderbyn gofal yn eu hiaith.

1.3 Risg: Heb newid mewn ffyrdd o weithredu ni fydd modd gwireddu'r weledigaeth bod siaradwyr Cymraeg yn cael cynnig gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol ym mhob rhan o Gymru. Bydd hyn yn debygol o gael effaith andwyol ar brofiad ac iechyd unigolion.

1.4 Y datrysiad sy'n cael ei gynnig: blaenoriaethu gweithredu mwy dwys a chynyddu adnoddau er mwyn ehangu capasiti'r sector iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau clinigol yn Gymraeg, drwy:

- Ffocysu'n benodol ar ddatblygu darpariaeth glinigol cyfrwng Cymraeg mewn meysydd blaenoriaeth
- Symud at ddull mwy dwys a strategol o weithredu gan flaenoriaethu meysydd allweddol a chanolbwyntio ar weithredu ac ymgorffori newid ar lawr gwlad
- Adolygu trefniadau llywodraethiant, atebolrwydd a chydweithio ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol
- Rhoi mwy o bwyslais ar wasanaethau gofal sylfaenol.

1.5 Y camau sydd angen eu cymryd gan Weinidogion Cymru

- Gosod cyfeiriad strategol i'r broses o adolygu a diwygio cynllun MNG gan sicrhau bod y cynllun newydd yn canolbwyntio yn fwy penodol ar wasanaethau clinigol, ac yn blaenoriaethu nifer llai o faterion allweddol.
- Sefydlu adran o swyddogion arweiniol MNG i weithredu mewn meysydd blaenoriaeth.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrifoldeb penodol, uchel ei statws, ar lefel weithredol ac anweithredol o fewn pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth genedlaethol, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hintegreiddio yn llawn i bob elfen o waith y sefydliadau hyn.
- Manteisio i'r eithaf ar rôl Comisiynydd y Gymraeg fel rheoleiddiwr a sefydliad sy'n gweithio yn uniongyrchol â'r sector i wella gwasanaethau clinigol i siaradwyr Cymraeg. Fel rhan o hyn dylid ystyried sut gellid alinio cynlluniau 5 mlynedd y

byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau cenedlaethol sy'n cael eu llunio yn unol â safon 110 gydag ymrwymiadau MNG a gwaith swyddogion arweiniol MNG.

- Diwygio trefniadau llywodraethiant, atebolrwydd a chydweithio ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol o safbwynt y Gymraeg.
- Fel rhan o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i ddiwygio a gwella gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru, sicrhau bod pwyslais strategol cynyddol ar ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o hyn dylid, adolygu a diwygio'r dyletswyddau gofal sylfaenol, gan gynnwys prosesau monitro, gwerthuso ac adrodd ar gynnydd.

2 Y cyngor llawn: sicrhau cynnydd yng nghapasiti'r gwasanaethau iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg

2.1 Mae adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd arnaf i gynnig cyngor a chymorth i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd neu sy'n ymwneud â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. O dan y ddarpariaeth hon rwy'n cyflwyno'r nodyn cyngor hwn i egluro'r camau rwyf yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cynyddu capasiti'r gwasanaeth iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

3 Ein gweledigaeth

3.1 Mae gallu defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn hollbwysig, yn arbennig gan y bydd unigolion yn aml mewn sefyllfa o wendid wrth dderbyn y gwasanaethau hynny. Erbyn diwedd cyfnod y Llywodraeth nesaf rydym yn dymuno gweld cynnydd ystyrlon yng nghapasiti'r gwasanaeth iechyd a gofal yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.2 Rydym yn dymuno gweld bod y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithredu'n fwy dwys ac effeithiol er mwyn cynyddu eu capasiti i ddarparu gwasanaethau clinigol cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth Mwy na Geiriau (MNG) a'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u hadnabod yng nghynlluniau strategol 5 mlynedd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau cenedlaethol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, pobl sy'n byw â dementia, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau strôc, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi iaith a lleferydd.

3.3 Yn ogystal â'r meysydd blaenoriaeth uchod rydym yn dymuno gweld pwyslais cynyddol ar gynyddu capasiti'r sector gofal sylfaenol i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

4 Y sefyllfa bresennol

Y safonau

4.1 Mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswyddau ar fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i ddarparu nifer o wasanaethau yn Gymraeg, gan gynnwys cynadleddau achos, prosesau derbyn cleifion mewnol, gohebiaeth, gwefannau, digwyddiadau cyhoeddus a ffurflenni.

4.2 Fodd bynnag, nid yw'r safonau yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Er hynny, mae gofynion penodol ar gyrff drwy safon 110 i lunio cynllun 5-mlynedd sy'n amlinellu sut byddant yn cynyddu

eu capasiti i gynnal ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae safon 23 a 23A hefyd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ofyn i glaf mewnol os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu, ac os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg i roi gwybod hynny i staff sy'n debygol o gyfathrebu â'r claf hwnnw.

4.3 Mae nifer o ofynion eraill y safonau yn berthnasol yng nghyd-destun cynyddu capasiti i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng Gymraeg. Er enghraifft, mae gofyn i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ddarparu cyfleoedd hyfforddi i gyflogeion er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dealltwriaeth am sut gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, a chyfleoedd i gael gwersi Cymraeg. Mae gofyn hefyd iddynt gofnodi sgiliau Cymraeg cyflogeion, i ystyried yr angen am sgiliau Cymraeg wrth recriwtio, ac i ystyried effaith unrhyw benderfyniad polisi ar y Gymraeg.

4.4 Mae safonau'r Gymraeg yn gymwys i wasanaethau gofal sylfaenol y GIG sydd dan gontract gan fyrddau iechyd. Mae gofyn hefyd i fyrddau iechyd gyhoeddi polisi ar ddarparu gwasanaeth gofal sylfaenol (safonau 78 a 78A).

4.5 Ar hyn o bryd nid yw safonau'r Gymraeg yn gymwys i ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol. Fodd bynnag, ers 2019 rhaid iddynt ddilyn 6 dyletswydd mewn perthynas â'r Gymraeg sy'n cynnwys materion fel hysbysu'r bwrdd iechyd lleol os ydynt yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, sefydlu a chofnodi dewis iaith y claf, annog a chynorthwyo staff i ddefnyddio gwybodaeth a/neu fynychu cyrsiau hyfforddi a ddarperir gan y bwrdd iechyd lleol.

4.6 Mae gofyn hefyd i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am wasanaethau gofal ddarparu rhai elfennau o'u gwasanaethau yn Gymraeg ond nid oes rheidrwydd arnynt i ddarparu pecynnau gofal llawn yn Gymraeg.

Cynllun Mwy na Geiriau

4.7 Mwy na Geiriau (MNG) yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector iechyd a gofal, ac yn benodol i gynyddu gofal clinigol yn Gymraeg. Mae wedi'i llunio yn unol ag egwyddor y Cynnig Rhagweithiol sy'n gosod cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach nag ar y claf neu'r defnyddiwr gwasanaeth i orfod gofyn amdanynt.

4.8 Mae'r cynllun yn gosod nifer helaeth o gamau gweithredu i bartneriaid cenedlaethol a lleol ac yn canolbwyntio ar themâu megis diwylliant ac arweinyddiaeth, polisïau a chynllunio gwasanaethau, datblygu sgiliau a chapasiti'r gweithlu, a defnyddio data er mwyn monitro, dysgu a gwella. Egwyddor ganolog i'r cynllun yw bod angen i'r Gymraeg gael ei hintegreiddio a'i phrif ffrydio i brosesau presennol y system iechyd a gofal.

4.9 Ar hyn o bryd mae cryn orgyffwrdd rhwng gofynion safonau'r Gymraeg ar gyfer maes iechyd a gofal cymdeithasol a rhai o bwyntiau gweithredu MNG. Dros y blynyddoedd diwethaf mae mwy o gydweithio wedi bod rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd

y Gymraeg er mwyn canolbwyntio ar brif ffocws cynllun MNG a safon 110, sef gwella darpariaeth iechyd a gofal clinigol cyfrwng Cymraeg.

Y prif heriau o ran sicrhau gwelliant yng nghapasiti'r sector i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg

4.10 Does dim amheuaeth bod safonau'r Gymraeg a chynllun MNG yn gosod seiliau cadarn ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg. Mae'n bwysig cydnabod hefyd yr ymdrechion sylweddol sydd wedi bod ar lefel cenedlaethol a lleol i wella gwasanaethau iechyd a gofal i siaradwyr Cymraeg. Mae gwelliannau amlwg wedi bod yn ymwybyddiaeth y sector o anghenion siaradwyr Cymraeg, a hefyd o ran cyfleoedd i weithwyr iechyd a gofal ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

4.11 Er gwaetha'r datblygiadau cadarnhaol uchod, mae'n amlwg bod gwella gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn dalcen caled. Ar hyn o bryd nid oes gwarant – o bell ffordd – y bydd siaradwr Cymraeg yn derbyn gofal clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn aml mae hyn yn cael effaith andwyol ar brofiad ac iechyd unigolion. Hyd yn oed mewn meysydd blaenoriaeth fel gofal dementia, prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos bod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg wedi gwella llawer dros y degawd diwethaf.

4.12 Mae rhai o'r rhesymau dros y cynnydd darniog, cyfyngedig ac araf yn cynnwys:

- Mae uchelgais ac amcanion cynllun MNG i'w groesawu, ond mae peryg ei bod yn strategaeth rhy eang ac haniaethol ei natur. Nid yw'n amlwg bod amcanion ac ymrwymiadau lefel uchel y strategaeth bob tro yn arwain at weithredu ymarferol digonol ar lawr gwlad.
- Er bod egwyddor y 'cynnig rhagweithiol' yn cael ei derbyn a'i thrafod fel cysyniad polisi ar draws y sector iechyd a gofal, nid yw mor amlwg bod y cysyniad hwn wedi treiddio ac yn cael effaith ddigonol ar y ffordd y caiff gofal ei gynllunio, ei ddarparu a'i ariannu.
- Mae'r ffocws ar brif ffrydio egwyddorion MNG i mewn i weithdrefnau presennol a chyffredinol y system iechyd a gofal yn golygu bod y Gymraeg yn aml yn gyfrifoldeb i bawb, ond hefyd i neb. Yn rhy aml nid yw'n amlwg pwy sydd wir yn gyfrifol am weithredu MNG mewn meysydd penodol, a'r canlyniad yw diffyg atebolrwydd o ran gweithredu ar lawr gwlad, ac mewn meysydd clinigol penodol.
- Mae adnoddau yn brin ac nid oes digon o ffocws wedi bod ar flaenoriaethu meysydd sydd am gael y traweffaith mwyaf ar brofiad siaradwyr Cymraeg. Mae tuedd bod y dull presennol yn ceisio gwneud ychydig bach o bopeth, yn hytrach na chanolbwyntio adnoddau ar feysydd penodol a phwysig lle byddai sicrhau cynnydd ystyrlon yn realistig.
- Mae diffyg eglurder o ran cyfrifoldebau a dulliau o gydweithio rhwng gwahanol sefydliadau sy'n arwain o ran y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal, gan gynnwys yn benodol Llywodraeth Cymru a thîm MNG, Perfformiad a Gwelliant

GIG Cymru, a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae angen mwy o ystyriaeth i ba drefniadau cydweithio, llywodraethiant ac atebolrwydd sydd am fod fwyaf effeithiol er mwyn sicrhau gwelliant yng nghapasiti'r sector i ddarparu gwasanaethau clinigol yn y Gymraeg.

4.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o gynllun MNG 2022-27 yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hwn yn gyfle euraidd i ystyried y camau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau cynnydd cyflymach yng nghapasiti gwasanaethau gofal a iechyd Cymru i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

5 **Ein cynnig:** blaenoriaethu, gweithredu mwy dwys a chynyddu adnoddau er mwyn ehangu capasiti'r sector iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau clinigol yn Gymraeg

5.1 Does dim dwywaith fod her sylweddol yn bodoli yng nghyd-destun gwella gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Os ydym am weld newid gwirioneddol ym mhrofiadau siaradwyr Cymraeg wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal dros y cyfnod nesaf, yna mae angen newid o'r dull presennol o weithredu.

5.2 Isod rydym yn amlinellu cyfres o gamau ymarferol y gellid eu cymryd er mwyn sicrhau bod mwy o weithredu dwys a phenodol i sicrhau bod cynnydd yng nghapasiti'r gwasanaeth iechyd a gofal i ddarparu gwasanaethau clinigol yn Gymraeg:

Cam 1: Blaenoriaethu, canolbwyntio adnoddau, a gweithredu yn fwy dwys mewn meysydd allweddol

5.3 Dylai cynllun MNG newydd Llywodraeth Cymru barhau i osod cyfeiriad strategol lefel uchel i'r Gymraeg o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Er ein bod yn derbyn bod ystod eang o faterion sydd angen sylw mewn cynllun o'r fath, mae angen i'r cynllun newydd ganolbwyntio ar nifer llai o bwyntiau gweithredu sydd â'r potensial o arwain at newid ymarferol a sylweddol i brofiadau clinigol siaradwyr Cymraeg. Dylid ceisio osgoi dyblygu gofynion sydd eisoes yn ddyletswyddau statudol dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg, a hefyd ymrwymiadau sydd mor eang eu natur fel ei bod yn anodd iawn mesur eu cyflawniad.

5.4 Dylai'r cynllun barhau i adnabod grwpiau a meysydd blaenoriaeth er enghraifft plant a phobl ifanc (yn enwedig o safbwynt darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol), pobl ag anableddau dysgu, defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, pobl sy'n byw â dementia, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau strôc, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi iaith a lleferydd.

Cam 2: Mae angen i’r cynllun newydd gael ei ategu gan fecanweithiau mwy effeithiol ar gyfer gweithredu ac ymgorffori newid ar lawr gwlad

5.5 Mae cynllun MNG presennol yn gosod cyfrifoldeb ar wahanol sefydliadau iechyd a gofal i weithredu nifer helaeth o bwyntiau gweithredu amrywiol. Er bod y pwyslais yma ar integreiddio a phrif ffrydio’r Gymraeg i mewn i brosesau presennol y system iechyd a gofal yn hynod bwysig, nid yw’r dull hwn o weithredu wedi gweithio’n effeithiol hyd yma. Mae angen datblygu mecanweithiau mwy ymarferol a phenodol o fynd a’r maen i’r wal. Gall hyn gynnwys:

Ariannu adran o swyddogion arweiniol fyddai'n gyfrifol am arwain gweithredu cynllun MNG a sicrhau atebolrwydd o fewn meysydd clinigol o flaenoriaeth uchel

5.6 Prif egwyddor y cynnig hwn yw bod angen adnodd ychwanegol a phenodol er mwyn sicrhau bod cynllun MNG yn cael ei weithredu ac yn arwain at newid gwirioneddol i brofiadau clinigol siaradwyr Cymraeg. Ffordd ymarferol o wneud hyn fyddai ariannu adran o swyddogion arweiniol MNG mewn meysydd blaenoriaeth benodol.

5.7 Byddai’r swyddogion arweiniol hyn yn:

- gyfrifol am sicrhau bod egwyddorion ac ymrwymiadau MNG yn cael eu gweithredu a’u hymgorffori’n effeithiol o fewn maes blaenoriaeth penodol a bod ffocws ar wella gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- rhannu arfer da ar draws y gwasanaeth iechyd a gofal gan weithio gyda chyrff proffesiynol, rheoleiddwyr, arolygiaethau, byrddau a chyrff iechyd, arweinwyr gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, elusennau ac eraill sy’n rhan o lwybrau gofal cleifion yn y maes blaenoriaeth benodol.
- rhoi sylw penodol i ddatblygu llwybrau gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu maes blaenoriaeth, gan sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog wrth asesu anghenion, comisiynu, darparu, ac arolygu gwasanaethau cymdeithasol yn lleol.
- pwynt cyswllt allweddol ar gyfer byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau cenedlaethol wrth iddynt gynllunio a gweithredu cynlluniau safon 110 ar gyfer cynyddu capasiti i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- rhan o ddatblygu a gweithredu strategaethau a chynlluniau gweithredu yn eu meysydd blaenoriaeth gan sicrhau bod darparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan annatod o’r cynlluniau hyn.
- adnabod anghenion y gweithlu a chydweithio ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AsGIC) er mwyn sicrhau bod y rhaglenni a gomisiynir gan AaGIC yn cyfrannu at gyflawni amcanion MNG ac yn datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu yn unol â’r angen sydd wedi’i adnabod.
- adnabod anghenion a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu iechyd a gofal mewn ffordd strategol a chydlynol, gan gydweithio â partneriaid allweddol

er mwyn datblygu capasiti'r gweithlu i ddarparu gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

- sicrhau bod yr adnoddau a'r dechnoleg sydd eu hangen i ddarparu'r gofal yn Gymraeg ar gael a sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'w datblygiad.

5.8 Y weledigaeth yw y byddai'r swyddogion hyn yn arwain y gwaith o sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog wrth gynllunio a darparu pob elfen o lwybrau gofal mewn maes clinigol penodol. Byddai'r swyddogion i bob pwrpas yn pontio strategaeth MNG a chynlluniau gweithredu a chyflawni yn eu meysydd clinigol penodol ac yn sicrhau bod ymrwymiadau MNG yn cael eu gweithredu a'u hymgorffori'n effeithiol o fewn y meysydd clinigol hynny.

Sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrifoldeb ar lefel briodol ac sydd â statws uchel o fewn strwythurau llywodraethiant y byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau cenedlaethol

5.9 Dylid gosod y Gymraeg fel cyfrifoldeb penodol un o gyfarwyddwyr strategol pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth genedlaethol. Byddai'r cyfarwyddwr hwn yn gyfrifol am sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ym mhob elfen o waith y bwrdd, yn enwedig o fewn meysydd allweddol fel datblygu a chynllunio'r gweithlu, a chyllido adnoddau a thechnoleg. O ystyried pwysigrwydd datblygu'r gweithlu a datblygu sefydliadol, yn enwedig yng nghyd-destun gofynion safon 110, credwn y dylid ystyried gosod y Gymraeg fel cyfrifoldeb i'r cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y gweithlu a datblygu sefydliadol. Rhan bwysig o gyfrifoldebau'r arweinydd strategol fyddai sicrhau bod y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth yn cynllunio ac yn gweithredu yn unol ag ymrwymiadau MNG, ac yn cydweithio'n effeithiol â swyddogion arweiniol MNG. Mae penderfyniad AaGIC i benodi arweinydd MNG yn enghraifft ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn.

5.10 Yn ogystal â chodi statws y Gymraeg o fewn cyfrifoldebau'r uwch-dîm gweithredol y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau cenedlaethol, mae hefyd angen sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrifoldeb penodol i aelodau anweithredol y bwrdd. Dylid penodi felly un aelod anweithredol o bob bwrdd ac ymddiriedolaeth genedlaethol fel 'eiriolwr y Gymraeg', fyddai'n gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth ac atebolrwydd ar lefel anweithredol.

5.11 Dylid sicrhau bod yr arweinwyr gweithredol ac anweithredol uchod wedi dilyn rhaglen 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog'.

Alinio cynlluniau 5 mlynedd y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau sy'n cael eu llunio yn unol â safon 110 gydag ymrwymiadau MNG â gwaith swyddogion arweiniol MNG

5.12 Rydym yn rhagweld mai un o brif gyfrifoldebau'r arweinydd fyddai sicrhau bod cynlluniau 5 mlynedd y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau ar gyfer cynyddu capasiti i gynnal ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg yn gerbydau pwerus ar gyfer gweithredu ymrwymiadau MNG ar lefel bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd.

5.13 Mae angen manteisio i'r eithaf ar botensial cyfundrefn statudol safonau'r Gymraeg i sicrhau bod byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau cenedlaethol yn cynllunio ac yn gweithredu er mwyn gwella gwasanaethau clinigol i siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth MNG.

Adolygu a diwygio trefniadau llywodraethiant, atebolrwydd a chydweithio

5.14 Dylid adolygu trefniadau llywodraethiant MNG er mwyn sicrhau gwell atebolrwydd a chydweithio mwy effeithiol.

5.15 Fel rhan o hyn dylid ystyried a fyddai mantais o osod prif gyfrifoldeb dros sicrhau gweithrediad ymarferol MNG i Perfformiad a Gwella GIG Cymru. O dan drefniadau o'r fath byddai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am osod cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth lefel uchel, a Perfformiad a Gwella GIG Cymru, drwy'r swyddogion arweiniol arbenigol, yn gyfrifol am arwain gweithredu ar draws y sector iechyd a gofal.

5.16 Bydd hefyd angen ystyried trefniadau llywodraethu a chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Perfformiad a Gwella GIG Cymru, swyddogion arweiniol MNG, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau cenedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg a phartneriaid eraill allweddol. Credwn y dylid ystyried sefydlu Bwrdd Gweinidogol Cenedlaethol MNG fyddai'n gyfrifol am ddarparu cyfeiriad a goruchwyliaeth strategol, monitro cynnydd a sicrhau atebolrwydd, a sefydlu is-grwpiau perthnasol i fynd i'r afael â blaenoriaethau penodol.

Cam 3: Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog yn rhaglen waith Llywodraeth Cymru i ddiwygio gofal sylfaenol a gwasanaethau meddygon teulu yng Nghymru

5.17 Fel yn achos gwasanaethau gofal cymdeithasol, nid oes digon o sylw, a dim digon o weithredu ymarferol wedi bod i wella gwasanaethau gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.18 O ystyried pwysigrwydd gwasanaethau gofal sylfaenol i brofiad pobl o'r GIG rhaid i'r Gymraeg fod yn greiddiol i bolisi yn y maes hwn. Wrth i Lywodraeth Cymru ddiwygio a gwella gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru, rhaid sicrhau bod pwyslais cynyddol ar ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.19 Fel rhan o hyn dylid adolygu'r dyletswyddau sydd wedi eu gosod ar ddarparwyr gofal sylfaenol annibynnol. Dylid sicrhau bod y dyletswyddau hyn yn gyson ag amcanion diweddaraf MNG a gweledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru dros y Gymraeg o fewn gwasanaethau iechyd a gofal.

5.20 Dylid ystyried a oes angen diwygio'r dyletswyddau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r newid sydd wedi bod yn ymwneud cleifion â gwasanaethau gofal sylfaenol (e.e. cynnydd mewn ymgynghoriadau ffôn a'r defnydd o dechnoleg).

5.21 Dylai'r adolygiad hefyd ystyried datblygiadau megis canolfannau gofal sylfaenol amlddisgyblaethol ac integredig sy'n dod â gofal sylfaenol a gwasanaethau eraill megis fferylliaeth, therapi, tai, a gofal cymdeithasol at ei gilydd.

5.22 Mater creiddiol y dylid ei ystyried fel rhan o'r adolygiad yw trefniadau monitro a gwerthuso cynnydd mewn perthynas â'r dyletswyddau sydd wedi'u gosod. Nid yw'n glir ar hyn o bryd bod digon o graffu ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y dyletswyddau sydd wedi eu gosod, ac felly bod unrhyw sicrwydd bod gwasanaethau gofal sylfaenol yn cydymffurfio â'r dyletswyddau ac yn cynllunio'n ddigonol er mwyn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.23 Fel yn achos y meysydd blaenoriaeth uchod dylid penodi swyddog arweiniol y Gymraeg mewn gofal sylfaenol fyddai'n gyfrifol am arwain yr adolygiad o'r dyletswyddau gofal sylfaenol. Byddai hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i ddatblygiadau polisi'r llywodraeth yn y maes gofal sylfaenol gan gynnwys datblygu'r gweithlu a mynediad drwy wasanaethau digidol a theleiechyd yn Gymraeg.

6 **Astudiaeth achos enghreifftiol:** gofal dementia drwy gyfrwng y Gymraeg

6.1 Byddai cynllun MNG Llywodraeth Cymru yn gosod cyfeiriad strategol a blaenoriaethau i'r sector iechyd a gofal o safbwynt gwella gwasanaethau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.2 Byddai swyddog arweiniol dementia MNG yn gyfrifol am sicrhau bod ymrwymiadau ac egwyddorion pwysicaf MNG yn cael eu gweithredu a'u hymgorffori mor effeithiol â phosib ym maes dementia.

6.3 Byddai'r swyddog arweiniol yn cydweithio â thîm canolog MNG a thîm dementia Llywodraeth Cymru, ac yn ymwneud â'r ystod eang o sefydliadau sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau dementia yng Nghymru. Yn ymarferol, byddai'n golygu sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn perthynas â materion fel:

- Ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer lleihau risg ac atal dementia
- Cofnodi a rhannu data am anghenion iaith pobl sy'n byw â dementia
- Diagnosis, asesu ac adnoddau
- Datblygu llwybrau gofal dwyieithog
- Asesu anghenion, comisiynu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol
- Cynllunio'r gweithlu, y sector addysg a sgiliau, a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol
- Arfer da a chanllawiau proffesiynol i weithwyr iechyd a gofal
- Arolygu, gwerthuso a monitro
- Newid diwylliant ac arweinyddiaeth

6.4 Gallai swyddog arweiniol o'r fath fod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu cynllun cyflawni ar gyfer gofal dementia cyfrwng Cymraeg, a hynny fel rhan o strategaeth dementia Llywodraeth Cymru, ac fel rhan greiddiol o'r fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd.

6.5 Byddai arweinydd strategol y Gymraeg mewn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn gyfrifol am sicrhau bod cynlluniau 5 mlynedd y bwrdd iechyd neu'r ymddiriedolaeth yn alinio ac yn cyfrannu i'r eithaf at gyflawni cynlluniau gweithredu ym maes dementia.